# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 2**

AWDURDOD CYLLID CYMRU

*Gwybodaeth*

## 16 Defnydd ACC a'i ddirprwyon o wybodaeth

(1) O ran gwybodaeth sy'n dod i law—

(a) ACC, neu

(b) person y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo,

mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC, caniateir ei defnyddio yn unol ag is-adran (2) yn unig.

(2) Caniateir defnyddio'r wybodaeth—

(a) gan ACC, neu

(b) gan unrhyw berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo,

mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC.

(3) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig sy'n cyfyngu ar y defnydd o wybodaeth neu'n gwahardd ei defnyddio.

## 17 Cyfrinachedd gwybodaeth warchodedig am drethdalwr

(1) Ni chaiff unigolyn sy'n swyddog perthnasol, neu sydd wedi bod yn swyddog perthnasol, ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr oni bai bod adran 18 yn caniatáu ei datgelu.

(2) Yn yr adran hon ac yn adran 19, ystyr "swyddog perthnasol" yw unigolyn—

(a) sy'n aelod o ACC, yn aelod o bwyllgor o ACC, neu'n aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath,

(b) sy'n berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo, yn aelod o gorff y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo, yn aelod o bwyllgor o gorff o'r fath neu'n aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath, neu'n dal swydd mewn corff o'r fath,

(c) sy'n aelod o staff ACC,

(d) sy'n aelod o staff person y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo a gyflogir mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny,

(e) sy'n berson sy'n darparu gwasanaethau i ACC, neu

(f) sy'n berson sy'n darparu gwasanaethau i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny.

(3) Yn is-adran (1) ac adran 18, ystyr "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" yw gwybodaeth yn ymwneud â pherson (y "person a effeithir")—

(a) a ddaeth i law ACC neu a ddaeth i law person y dirprwywyd unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC iddo mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, a

(b) y gellir adnabod y person a effeithir ohoni (boed oherwydd bod yr wybodaeth yn nodi pwy yw'r person a effeithir neu oherwydd y gellir casglu pwy ydyw ohoni).

(4) Ond nid yw gwybodaeth yn "wybodaeth warchodedig am drethdalwr" os yw'n wybodaeth am drefniadau gweinyddol mewnol ACC neu berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo (pa un a yw'r wybodaeth yn ymwneud ag aelodau o staff ACC neu staff person o'r fath neu â phersonau eraill).

### 18 Datgelu a ganiateir

(1) Mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr—

(a) os gwneir hynny gyda chydsyniad pob person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef,

(b) os gwneir hynny er mwyn cael gwasanaethau mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC,

(c) os gwneir hynny at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd,

(d) os gwneir hynny i gorff sydd â chyfrifoldeb am reoleiddio proffesiwn mewn cysylltiad â chamymddwyn ar ran aelod o'r proffesiwn sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau ACC,

(e) os gwneir hynny at ddibenion achos sifil,

(f) os gwneir hynny yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys,

(g) os gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny, neu

(h) os gwneir hynny i ACC neu i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo ar gyfer ei defnyddio yn unol ag adran 16.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau.

## 19 Datganiad ynghylch cyfrinachedd

(1) Rhaid i bob unigolyn sy'n swyddog perthnasol wneud datganiad sy'n cydnabod y rhwymedigaeth o ran cyfrinachedd o dan adran 17.

(2) Rhaid gwneud datganiad—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl penodi'r unigolyn, a

(b) mewn unrhyw ffurf a modd a bennir gan ACC.

(3) At ddibenion is-adran (2)(a)—

(a) nid yw adnewyddu penodiad cyfnod sefydlog i'w drin fel penodiad,

(b) mae unigolyn sydd o fewn adran 17(2)(e) i'w drin fel pe bai wedi ei benodi pan fo'r unigolyn yn darparu'r gwasanaethau a grybwyllir yno gyntaf, ac

(c) os penodwyd unigolyn sydd o fewn adran 17(2)(b), (d) neu (f) (neu os trinnir yr unigolyn fel pe bai wedi ei benodi) cyn dirprwyo'r swyddogaethau o dan sylw, mae'r unigolyn i'w drin fel pe bai'n ofynnol iddo wneud y datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dirprwyo'r swyddogaethau.

## 20 Y drosedd o ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr ar gam

(1) Mae unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth yn groes i adran 17(1) yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'n amddiffyniad i unigolyn a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) brofi bod yr unigolyn yn credu'n rhesymol—

(a) bod adran 18 yn caniatáu datgelu'r wybodaeth, neu

(b) bod yr wybodaeth eisoes wedi ei darparu yn gyfreithlon i'r cyhoedd.

(3) Mae unigolyn sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis neu i ddirwy (neu'r ddau);

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).

(4) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar y gallu i fynd ar drywydd unrhyw rwymedi na chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â thorri adran 17(1).